

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522
Dyddiad / Date: 16-12-21 E-bost / E-mail : CwestiwnECS@sirgar.gov.uk / QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Rieni/Gwarchodwyr,

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod tymor arbennig o heriol. Ein blaenoriaeth ni oll fel Ysgolion ac Awdurdod Lleol yw lleihau'r tarfu i addysg a sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod dysgwyr yn parhau i dderbyn dysgu wyneb yn wyneb, yn ogystal â gwarchod dysgwyr a staff yn ein hysgolion.

Rydym yn gwybod y bu tarfu yn ystod y tymor ysgol hwn oherwydd absenoldeb staff a dysgwyr sydd wedi golygu bod rhai ysgolion wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i symud rhai dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn i ddysgu o bell am gyfnodau byr. Yn sgil hyn, yn ogystal â'r lefelau cyfredol o ansicrwydd ynghylch effaith Omicron, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod gan ysgolion amser i gynllunio a pharatoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr.

Mae Jeremy Miles, Gweinidog Addysg a'r Gymraeg wedi penderfynu y bydd pob ysgol yn cael dau ddiwrnod cynllunio ar ddechrau tymor newydd y gwanwyn. Yn Sir Gar bydd y rhain yn cael eu cynnal ar y **4ydd a'r 5ed o Ionawr. Bydd ein dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar y 6ed o Ionawr.** Bydd y diwrnodau cynllunio yma yn caniatáu i'n harweinwyr ysgol i-

- Asesu capasiti staffio
- Rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad ein dysgwyr.
- Ystyried ymyriadau priodol fel y nodir yn ein Fframwaith Penderfyniadau Lleol.
- Ganiatáu ysgolion i ystyried, os yw'n briodol, fel rhan o'u proses asesu risg amrywio amseroedd cychwyn a gorffen.
- Gynllunio er mwyn i ddysgwyr sefyll eu harholiadau ym mis Ionawr yn ddiogel ac ailedrych ar eu cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod blynyddoedd arholiad yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth ar y safle pe bai angen cyfyngu ar ddysgu wyneb yn wyneb ar unrhyw adeg.
- Sicrhau bod gan yr ysgol gynlluniau cadarn ar waith i symud i ddysgu o bell. Gallai hyn fod ar gyfer dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn unigol neu o bosib ar gyfer yr ysgol gyfan.
- Ystyried pa drefniadau y gallai fod angen bod ar waith ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol yn ystod unrhyw gyfnodau o darfu.
- Ystyried gweithrediad gwasanaethau eraill ar safle'r ysgol, megis clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr allanol.

Bydd ein hysgolion yn defnyddio'r ail ddiwrnod cynllunio i roi ar waith unrhyw newidiadau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol, a chyfathrebu'r newidiadau hyn a phwysigrwydd profi i'r holl staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr cyn dechrau Tymor y Gwanwyn.

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau â'r cyngor ar orchuddion wyneb i'r tymor newydd-

- Dylai staff ac ymwelwyr **wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal dan do ym mhob lleoliad**, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Dylai dysgwyr oed uwchradd hefyd wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal dan do, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.
- Argymhellir y dylai **dysgwyr oed uwchradd barhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol**.

Yn ogystal, mae'n bwysig iawn bod staff a dysgwyr yn parhau i ddefnyddio Profion Llif Ochrol yn rheolaidd. Ein disgwyliad cryf yw y dylai'r holl staff a dysgwyr oed uwchradd brofi gan ddefnyddio Profion Llif Ochrol **deirgwaith yn yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol** ac yna parhau i brofi'n rheolaidd **dair gwaith** yr wythnos ar ôl dechrau'r tymor ym mis Ionawr.

Mae brechu a phrofi'n parhau i roi'r amddiffyniad gorau rhag y firws hwn. Dylai pawb flaenoriaethu cael eu brechlyn neu frechlyn atgyfnerthu pan fyddant yn cael ei gynnig ac rydw i wedi gofyn i ysgolion ganiatáu hynny fel rhan o'u cynlluniau.

Mae'r Awdurdod Lleol ac arweinwyr ysgol yn cydnabod y gallai'r diwrnodau cynllunio hyn effeithio ar y dyddiad yr oedd rhieni a gofalwyr yn disgwyl i'w plant ddychwelyd i'r ysgol yn y flwyddyn newydd. Lle mae hynny'n wir, ar yr ail ddiwrnod, rydyn ni wedi gofyn i ysgolion ystyried pa ddarpariaeth y gallai fod angen ei rhoi ar waith ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol. **Yn y lle cyntaf, dylai rhieni ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael iddynt a gofyn am ddarpariaeth o'r fath dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol**. Os oes angen cefnogaeth arnoch cysylltwch â'ch ysgol.

Bydd plant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael cinio am ddim yn derbyn taliadau ar gyfer y ddau ddiwrnod paratoi. Bydd ceginau ysgolion yn ail-agor ar ddydd Iau, Ionawr 6ed.

Mae'n hanfodol nad yw unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 yn mynychu'r ysgol ac y dylent drefnu prawf PCR ac ynysu nes y derbynnir y canlyniad. Gofynnir i rieni fod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf am symptomau'r amrywiolyn Omicron a gofynnwn i chi beidio â rhoi ein Penaethiaid mewn sefyllfa anodd wrth orfod gwrthod derbyn disgyblion sydd a symptomau i'r ysgol.

Hoffwn gloi trwy ailadrodd fy niolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod cyfnod eithriadol o heriol. Gobeithio y cewch chi a'ch teulu saib haeddiannol dros wyliau'r Nadolig.

Diolch o galon,

Gareth Morgans

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English